**LC918**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2004**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001 trwy fewnosod Atodlen 2 newydd sy'n rhagnodi'r wybodaeth am ganlyniadau arholiadau a chymwysterau galwedigaethol y mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu eu cyhoeddi yn eu hadroddiad blynyddol.

**Rheol Sefydlog 11.7**
Mae'r pwynt canlynol wedi'i nodi i'w adrodd o dan Reol Sefydlog 11.7.
Nid yw'r geiriad yn rheoliad 2(2) o'r diffiniad o "TAG Safon Uwch" ac "arholiadau TAG Uwch Gyfrannol" yn adlewyrchu'r ffaith mai cyfeirio at y cymhwyster yn hytrach na'r arholiad sy'n arwain at y cymhwyster yw bwriad y diffiniad. Dylid diwygio'r diffiniad i adlewyrchu'r bwriad hwn. Awgrymir y dylid defnyddio'r diffiniad canlynol yn y testun Cymraeg a defnyddio diffiniad sy'n cyfateb yn y testun Saesneg:-
Ystyr "TAG Safon Uwch ("GCE 'A' level") a "TAG Uwch Gyfrannol" ("GCE 'AS'") yw Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol yn y drefn honno."".
Mae'r diwygiad hwn yn addas i'w gynnwys mewn Memorandwm Cywiriadau.

**Sylwadau**
Er nad ydynt o angenrheidrwydd yn bwyntiau sydd wedi eu nodi i'w hadrodd, ystyrir y gellid gwella'r drafftio trwy roi'r geiriau "sydd yn nhrefn y wyddor" yng ngeiriau agoriadol rheoliad 2(2). Byddai'n bosibl delio â hyn yn y Memorandwm Cywiriadau.
Yn y testun Cymraeg, mae'r dyfynodau cloi ar goll ar ddiwedd paragraff 19 o'r Atodlen newydd. Gellid cywiro hyn wrth gyhoeddi a byddai'n ddefnyddiol i ychwanegu troednodyn yn egluro trosglwyddo pwerau i'r Cynulliad.

**Glyn Davies AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

**22 Mehefin 2004**